8. Bwrdd Adar

Mae rhoi bwyd i adar yn ystod y gaeaf yn gallu achub eu bywydau. Mae bwrdd adar yn rhoi lle diogel i adar fwyta. Dylai fod mewn lle agored fel nad yw cathod yn gallu cuddio, a dal yr adar.

9. Lloches a chysgod

Mae llawer o adar, ystlumod a draenogod yn hapus i ddefnyddio bocsys wedi'u gwneud gan bobl fel eu cartref, os nad oes ganddynt gartref naturiol. Gellwch wneud y bocsys hyn eich hunain neu eu prynu.

10. Y Domen Gompost

Mae'r domen gomost yn lle perffaith i lawer o greaduriaid guddio. Mae'n bosibl dod o hyd i bryfed genwair, chwilod a phryfed eraill sy'n helpu'r gwastraff i bydru yno, yn ogystal â chreaduriaid mwy o faint megis y broga.

Geirfa

Brodorol – planhigion sydd wedi tyfu yn yr ardal honno ers cannoedd o flynyddoedd.
Cynefin – lle mae creadur yn byw.
Chwynladdwyr (*herbicide*) – cemegion sy'n lladd chwyn.
Deilbridd (*leafmould*) — dail wedi pydru sy'n cael eu defnyddio i wella'r pridd
Delltwaith (*trellis*) – ffrâm i blanhigion dyfu drosto
Ffrwythlondeb – faint o faeth sydd yn y pridd.
Gwair – glaswellt wedi'i dorri (ond mae 'gwair' yn golygu glaswellt/porfa yn y Gogledd)
Gweirglodd (*meadow*)–darn o dir gwastad ar gyfer tyfu gwair, dôl
Plaladdwyr (*insecticides*) – cemegion sy'n lladd creaduriaid.
Pydru – mynd yn ddrwg, dadfeilio.

Blodau gwyllt ar gyfer bordor blodau

Pabi'r ŷd—Field poppy—*Papaver rhoeas*
Clafrllys—Field scabious—*Knautia arvensis*
Pig Garan y Weirglodd—Meadow cranesbill—*Geranium pratense*
Penlas yr ŷd—Cornflower—*Centaurea cyanus*
Llygad Llo Mawr—Ox-eye daisy—*Leucanthemum vulgare*

Planhigion ar gyfer clawdd brodorol

Ffawydd—Beech—*Fagus sylvatica*
Masarn Bach—Field maple—*Acer campestre*
Drain Gwynion—Hawthorn—*Crataegus monogyna*
Ysgawen y Gors—Guelder rose—*Viburnum opulus*
Coed cyll—Hazel—*Corylus avellana*

Blodau gwyllt i gael lliwiau brith

Eirlys—Snowdrop—*Galanthus nivalis*
Blodyn y Gwynt—Wood anemone—*Anemone nemorosa*
Clychau'r Gog—Bluebell—*Endymion nonscriptus*
Briallu—Primrose—*Primula vulgaris*
Meddyges las—Selfheal—*Prunella vulgaris*

Llwyni brodorol

Breuwydden—Alder buckthorn—*Frangula alnus*
Gwifwrnwydden—Wayfaring tree—*Viburnum lantana*
Helygen y geifr—Goat willow—*Salix caprea*
Cwyrwialen—Dogwood—*Cornus sanguinea*

Blodau gwyllt wrth ochr y dŵr

Sawdl y fuwch—Marsh marigold—*Caltha palustris*
Gellesg melyn—Yellow flag—*Iris pseudacorus*
Mint y dŵr—Water mint—*Mentha aquatica*
Glas y gors—Water forget-me-not—*Myosotis scorpioides*

Denu

Bywyd Gwyllt

Canllaw i fyfyrwyr ar sut i ddenu bywyd gwyllt i'r ardd

garden organic

Garden Organic *for* Schools

www.schoolsorganic.net

cyfieithwyd gan Ganolfan Organig Cymru
www.organic.aber.ac.uk/cymraeg

Denu bywyd gwyllt i'ch gardd

Mae'n syndod faint o greaduriaid yr ydych yn gallu eu denu i ddod i'ch gardd, dim ond drwy blannu planhigion addas. Bydd yn rhoi cyfle i chi wylio amrywiaeth ddiddorol o greaduriaid ond byddwch hefyd yn rhoi bwyd a rhywle i fyw i'r creaduriaid hyn. Mae llawer o'u **cynefinoedd** naturiol wedi'u dinistrio gan adeiladau, diwydiannau a llygredd.

Felly beth sy'n rhaid i chi ei wneud i greu gardd sy'n denu bywyd gwyllt?

Y Camau Cyntaf

1. Peidiwch â defnyddio cemegion yn yr ardd
Mae **plaladdwyr** yn lladd y pla maent i fod i'w ladd, ond gall hefyd niweidio creaduriaid eraill. Er enghraifft, mae pelenni malwod du yn lladd gwlithod (*slugs*) ond maent hefyd yn gallu niweidio draenogod a chwilod du, ac mae'r ddau yma yn bwyta gwlithod.
Mae **chwynladdwyr** yn gallu niweidio pryfed genwair (mwydod) a chreaduriaid eraill sy'n byw yn y pridd.

2. Planhigion Brodorol
Y planhigion **brodorol** yw'r rhai y mae pryfed a chreaduriaid eraill yn bwydo arnynt yn naturiol ac felly mae'r planhigion hyn yn denu mwy o fywyd gwyllt. Mae blodau gwyllt brodorol yn ddeniadol ac maent yn hawdd i'w tyfu mewn bordor blodau. Mae'n bosibl defnyddio coed a llwyni (*shrubs*) brodorol i wneud gwrych neu glawdd yn atyniadol.

Cynefinoedd Gwahanol

Os ydych eisiau i'r creaduriaid fyw yn eich gardd yna mae'n rhaid i chi roi pob math o **gynefin** gwahanol iddynt.

3. Coetir
Mae ymyl coedwig yn gynefin gwych a heb ei ail ar gyfer llawer o greaduriaid oherwydd bod cymaint o haenau o blanhigion yno. Os nad oes gennych le i gael coeden, yna gellwch greu haen uchel drwy gael grwych/clawdd neu blanhigion yn tyfu dros **ddelltwaith**. Dylech dyfu llwyni o dan hwn a chael blodau gwyllt y coed ar y ddaear oddi tano. Mae hefyd yn bwysig cael deunydd marw sy'n **pydru** ar wyneb y pridd. Bydd hyn yn rhoi lle i'r creaduriaid guddio. Gellwch ddefnyddio rhisgl coed (*bark*) neu **deilbridd** ar gyfer hyn.

4. Lawntydd a 'gweirglodd' blodau gwyllt

O adael i ddarnau o lawnt dyfu heb ei dorri am rai misoedd, bydd glaswellt a blodau gwyllt yn cael cyfle i dyfu. Bydd y rhain yn rhoi cynefin newydd i bryfed a mamaliaid bychain.

I gael '**gweirglodd** y gwanwyn', gadewch y glaswellt heb ei dorri tan ddiwedd Mehefin. Yna torrwch ef. Ar ôl torri'r glaswellt, gadewch y gwair ar y llawr er mwyn rhoi amser i'r hadau syrthio cyn ei gribinio gyda rhaca. Yna casglwch y **gwair** gyda chribin/rhaca. Torrwch y lawnt fel yr ydych yn arfer ei wneud ar ôl hynny. I gael 'gweirglodd diwedd haf' torrwch y glaswellt bob yn hyn a hyn ar ddechrau'r haf, ac yna gadewch ef tan ddiwedd mis Medi pryd y dylech ei dorri a'i gribinio.

Mae angen cael gwared â'r deunydd marw i leihau **ffrwythlondeb** y pridd, sy'n annog blodau gwyllt.

Gweler taflen wybodaeth HDRA —*Creating a wildflower meadow.*

5. Pyllau
Bydd pwll o ddŵr yn denu amrywiaeth eang o greaduriaid yn gyflym, pethau megis chwilod, sglefrwyr y dŵr, mursennod (*damselflies*), llyffantod a brogaod. Bydd pwll hefyd yn rhoi lle i adar ymolchi ac yfed.

Dylai pwll fod mewn lle agored yn llygad yr haul, a pho fwyaf o faint yw'r pwll po orau. Wedi dweud hynny, bydd pwll bach hefyd yn denu digon o fywyd gwyllt. Rhaid i bwll bywyd gwyllt fod yn isel ar yr ochrau mewn ambell fan er mwyn i'r creaduriaid allu dringo i mewn ac allan. Rhaid i'r pwll hefyd fod â dyfnder o 60cm mewn o leiaf un lle. Dylai hefyd gael planhigion o'i gwmpas ar un ochr o leiaf.

Gweler taflen wybodaeth HDRA —*Creating a pond*

6. Hen waliau a phentwr o goed
Mae llawer o flodau gwyllt yn tyfu'n dda mewn tyllau mewn hen waliau neu yng nghanol creigiau. Mae'r bylchau rhwng cerrig yn gartref delfrydol a pherffaith ar gyfer llawer o bryfed ac anifeiliaid bychain. Mae pentwr o goed tân neu bren hefyd yn lle da i bryfed ac anifeiliaid bach i guddio.

Syniadau eraill

Bwyd
Mae blodau yn denu pilipalod, gwenyn, gwybed hofran a chreaduriaid eraill sy'n bwyta neithdar a phaill .
Unwaith y mae'r rhain yn eich gardd bydd adar ac anifeiliaid bach sy'n eu bwyta nhw yn eu dilyn. Edrychwch ar y rhestr planhigion gyferbyn am syniadau ar ba blanhigion i'w defnyddio i ddenu. Mae aeron a mwyar ar lwyni hefyd yn rhoi bwyd iddynt.